

Cynrychiolwyr cwrs: Mesur yr effaith

Beth ydyn ni'n ei olygu?

Myfyrwyr yw cynrychiolwyr sydd naill ai wedi cael eu hethol neu eu dewis i fod yn llais i gorff ehangach y myfyrwyr ar faterion academiaidd. Mae mesur effaith bod yn gynrychiolydd ar y myfyrwyr hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y rôl yn effeithiol, a bod myfyrwyr a staff yn gweithio mewn partneriaeth.

Mae mesur effaith yn golygu gwerthuso pa mor llwyddiannus mae'r prosiect wedi cael ei weithredu. Gall hyn fod yn unrhyw beth o ganfod pa sgiliau mae'r cynrychiolwyr wedi'u datblygu, i ba raddau, a pha mor berthnasol a defnyddiol yw'r sgiliau hynny, i ba mor dda mae myfyrwyr a staff yn cyfranogi yn y system. Gellir cyflawni hyn drwy amrywiaeth o ddulliau a cheir rhai ohonynt isod.

Hefyd, gall olygu mesur yr effaith a gafodd y cynrychiolwyr ar aelodau eraill o gorff y myfyrwyr – ydyn nhw wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu cyfoedion.

Pam mesur yr effaith?

Mae'n bwysig gwerthuso'ch cynrychiolwyr myfyrwyr oherwydd bodd modd i hyn ddangos pa raglenni hyfforddi sy'n gweithio'n dda, pa sgiliau sydd fwyaf gwerthfawr i'r myfyrwyr, ac a yw'r rolau'n perfformio'r fel roeddech chi'n bwriadu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y myfyrwyr a'r sefydliad:

Mae mesur effaith bod yn gynrychiolydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a staff yn gweithio mewn partneriaeth.

Cynrychiolwyr cwrs

- Datblygu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy mae modd eu defnyddio yn y dyfodol
- Mewnbyn i'r broses ddylunio'r rôl
- Gwella datblygiad personol drwy hyfforddiant

Corff ehangach y myfyrwyr

- Y cynrychiolwyr yn rhoi grym iddyn nhw roi adborth
- Caiff eu llais ei werthfawrogi
- Newidiadau a wnaed ar eu rhan

Sefydliad

- Gwella'r berthynas rhwng y myfyrwyr a'r staff
- Dangos bod cynrychiolwyr myfyrwyr yn gadael addysg bellach gyda sgiliau trosglwyddadwy a mwy o hyder

Ble i ddechrau

Mae modd i chi ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau i ddechrau mesur effaith cynrychiolydd ar eich dysgwyr.

Arolygon

Mae gofyn i'ch cynrychiolwyr sut mae eu sgiliau wedi datblygu dros gyfnod o flwyddyn yn ddull syml ac effeithiol o fesur effaith. Crëwch arolwg sy'n gofyn i fyfyrwyr restru pa mor hyderus ydyn nhw gydag amrywiaeth o sgiliau ar ddechrau'r flwyddyn, a gofynnwch iddyn nhw ei lenwi eto tua'r diwedd. Bydd hyn yn rhoi data meintiol i chi i ganfod pa sgiliau sydd wedi gwella fwyaf, a gall roi gwybod i chi pa welliannau mae angen eu gwneud yn y dyfodol.

Gall y sgiliau rydych chi'n eu dadansoddi gynnwys siarad cyhoeddus, rheoli amser, trafod, gwaith tîm a sgiliau mewn pwyllgorau. Hefyd, yn yr arolwg, dylech chi roi cyfle i ddysgwyr wneud sylwadau agored pellach ynglŷn â bod yn gynrychiolydd, fel yr hyn maen nhw'n edrych ymlaen ato, neu'r hyn sy'n eu poeni nhw. Mae'n bwysig caniatáu i fyfyrwyr roi'r math hwn o adborth, oherwydd gallai hyn newid eich cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dylech chi feddwl am y ffordd byddwch chi'n dosbarthu'r arolygon ac yn casglu gwybodaeth ohonynt. Os byddwch chi'n cynnal digwyddiad ar gyfer eich holl gynrychiolwyr ar ddechrau'r flwyddyn, efallai y bydd copi papur yn sicrhau mwy o ymatebion. Gall defnyddio arolygon ar-lein ei gwneud hi'n fwy hygyrch i ddysgwyr rhan amser a dysgwyr o bell.

Grwpiau ffocws

Nid yw holi myfyrwyr pa sgiliau sydd wedi'u gwella yn eu barn nhw yn debyg i holi pa sgiliau sydd fwyaf gwerthfawr eu datblygu.

Efallai na fydd rhoi arolwg syml i fyfyrwyr yn casglu'r holl wybodaeth sydd wir eu hangen arnoch i fesur effaith yn ysturlon. **Mae casglu gwybodaeth gan y cynrychiolwyr yn bersonol yn ffordd effeithiol o drafod eu barn ar eu cefnogaeth** a'r hyn gellid ei wneud i wella'r gefnogaeth honno. Er enghraifft, nid yw holi pa sgiliau sydd wedi'u gwella yn eu barn nhw yn debyg i holi pa sgiliau sydd fwyaf gwerthfawr eu datblygu.

Os ydych chi'n dewis cynnal grwpiau ffocws, sicrhewch fod strwythur ganddynt er mwyn osgoi myfyrwyr yn teimlo eu bod yn wastraff amser. Os ydych chi wedi cael canlyniadau gwael mewn agwedd benodol ar arolwg a roddwyd i chi, er enghraifft, gallwch ddefnyddio grŵp ffocws i geisio canfod y rhesymau y tu ôl i hyn.

Hefyd, ystyriwch amser y flwyddyn – rhowch ddigon o amser i'r myfyrwyr yn y rôl i feddwl am yr hyn maen nhw am ei godi, ond nid gormod fel na fydd digon o amser i ddatrys unrhyw broblemau yn y flwyddyn honno. Penderfynwch a fydd un grŵp ffocws yn ddigon mewn blwyddyn, neu a fyddai angen cyfarfodydd amlach. Efallai gallai adborth fod yn rhan o gyfarfodydd eraill sydd gennych chi eisoes gyda'ch cynrychiolwyr.

Efallai mai'r rheswm pam nad yw myfyrwyr yn cael y mwyaf o'u rôl fel cynrychiolydd yw diffyg dealltwriaeth. Os gofynnwch chi i'r myfyrwyr mewn grŵp ffocws beth yw ystyr cynrychiolydd, cewch wybod cymaint maen nhw wedi deall eu rôl.

Sicrhewch fod strwythur gan eich grwpiau ffocws.

Llawlyfr

Mae nifer o sefydliadau wedi creu llawlyfrau i'w myfyrrwyr, ac mae modd iddyn nhw weithio trwyddynt gydol y flwyddyn, a chyfeirio yn ôl atynt pan fydd angen. Gallai hyn fod yn ddull defnyddiol o olrhain eu cynnydd, ac asesu'r effaith mae'r rôl wedi'i chael arnynt.

Dylai'r llawlyfr roi crynodeb o rôl cynrychiolydd, ei chyfrifoldebau, ac unrhyw wobrau sydd gennych chi. Ond os ydych chi am ei ddefnyddio fel teclyn i fesur effaith, mae angen iddo gynnwys gweithgareddau gall y myfyrrwyr eu cwblhau gydol y flwyddyn. Yna, bydd modd i chi fynd drwy'r rhain gyda'ch cynrychiolwyr ar ddiwedd eu tymor i weld sut maen nhw wedi perfformio.

Cwestiynau ynglŷn â phrofiad myfyrrwyr o ddysgu


Mae holi eich cynrychiolwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ynglŷn â'u profiad o ddysgu, a gweld sut mae eu hatebion yn gwella, yn ffordd effeithiol iawn o fesur eu gwelliant. Mae hunanasesu trwy gyfrwng arolwg yn wych os ydych chi am fesur y ffordd mae'r myfyrrwyr yn teimlo eu bod nhw wedi tyfu, ond mae'r dull hwn yn fwy effeithiol os ydych chi am brofi eu gwybodaeth.

Y rhain yw'r sefyllfaoedd rydych chi'n eu gosod a'r cwestiynau rydych chi'n gofyn i'r cynrychiolwyr i gael gwybod sut bydden nhw'n ymateb. Gall hyn fod yn ymarfer ysgrifenedig neu'n drafodaeth grŵp. Mae'n dechlyn gwerthfawr er mwyn asesu eu sgiliau yn ogystal â ffordd o'u hyfforddi nhw ar ddechrau'r flwyddyn i'w gwneud nhw'n fwy cyfforddus â'u rôl.

Mewnbwn y staff

Mae'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth gan y staff sy'n gweithio gyda'r cynrychiolwyr, oherwydd mae'n bosib y bydd ganddyn nhw fam wahanol i'r myfyrrwyr ynghylch pa mor dda mae'r system yn gweithio. Gofynnwch i'r tiwtoriaid a ydyn nhw'n meddwl bod y cynrychiolwyr yn weithgar ac a oes unrhyw beth arall maen nhw'n teimlo y dylen nhw ei wybod i roi cymorth iddyn nhw'n fwy effeithiol.

Mae'r berthynas rhwng y staff a'r myfyrrwyr yn bwysig er mwyn cynnal strwythur cynrychioliadol, felly mae'n hollbwysig bod y staff yn wybodus ac yn awyddus i gefnogi eu cynrychiolwyr. Os bydd y staff yn cymryd rhan, mae'n fwy tebygol y bydd y myfyrrwyr hefyd.



Os byddwch chi'n ennyn diddordeb y staff, bydd y myfyrrwyr yn dilyn hefyd.

Y Camau Nesaf

Nid yw casglu'r wybodaeth yn ddigon i fesur yr effaith yn effeithiol – rhaid gwerthuso'r canlyniadau i ganfod pa gamau rhaid eu cymryd nesaf.

Os ydych chi wedi canfod bod myfyrrwyr wedi ei chael hi'n anodd datblygu sgiliau penodol dros gyfnod o flwyddyn, ystyriwch sut byddwch chi'n mynd i'r afael â hyn. Darganfyddwch achos y broblem ac ewch ati. Ai diffyg hyfforddiant i'r myfyrrwyr yw hi, neu ddiffyg cymorth gan y staff? Sicrhewch fod y ddau grŵp yn cymryd rhan yn y fenter, ac yn cydweithio i gyrraedd yr un nodau.

Os bydd yn ymddangos bod myfyrrwyr yn ei chael hi'n anodd â sgiliau penodol, mae syniadau o ran gweithdai mae modd eu cynnal yn yr adran adnoddau isod.

Ar ôl eich gweithdai, dylech chi ofyn i fyfyrwyr am adborth i weld a oedden nhw'n ddefnyddiol ac a ddysgon nhw unrhyw beth. Yna, bydd modd defnyddio hyn i gryfhau unrhyw adborth arall rydych chi wedi'i gasglu gan fyfyrwyr i fesur effaith bod yn gynrychiolydd.

Mae'n werth ystyried a allai hyfforddiant ar-lein fod o fudd i'ch myfyrwyr, naill ai i gyd-fynd â gweithdai wyneb yn wyneb neu eu disodli. Mae hwn yn ddull mae nifer o undebau wedi'i fabwysiadu ac mae ymgysylltiad wedi cynyddu'n ddramatig o ganlyniad.

Sicrhewch eich bod chi'n cau'r cylch adborth gyda'ch myfyrwyr.

Trwy barhau â'r cylch gwerthuso hwn bob blwyddyn, dylech chi allu sefydlu system gynrychioliadol iach yn llwyddiannus.

Hefyd, mae'n hynod o bwysig sicrhau eich bod chi'n cau'r cylch adborth gyda'ch myfyrwyr. Pan fyddwch chi'n gofyn iddyn nhw lenwi arolygon, mynychu grwpiau ffocws ac ateb cwestiynau ynghylch eu profiad o ddysgu, rhaid hefyd darparu gwybodaeth am ba gamau a gymerir o ganlyniad i'w mewnbwn. Rhaid i chi sicrhau bod gennych chi fecanweithiau i werthuso yn ogystal ag ymateb i'r adborth a roddir.

Crynodeb

Cynrychiolwyr Cwrs yw un o'r meysydd partneriaeth myfyrwyr sydd wedi datblygu orau drwy'r sector addysg uwch, ac mae modd dechrau dod â'r llwyddiant hwnnw at addysg bellach drwy fesur yr effaith. Mae'n gam pwysig o ran deall beth arall mae modd ei wneud i ddatblygu systemau cynrychiolwyr cwrs. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion isod).

Adnoddau

- [Swydd Ddisgrifiad Coleg Sir Gâr](#)
- [Gwefan hyfforddi cynrychiolwyr cwrs Sparqs](#)
- [Taflen hyfforddi](#)
- [Sesiynau Hyfforddi Cynrychiolwyr TSEP](#)
- [Architects of their experience: the role, value and impact of student academic representation systems in Higher Education in England \(Flint, Goddard a Russel, 2017\)](#)

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant

jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk